# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Yr Hafod

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Yn Ysgol Gynradd yr Hafod, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn barod i ddysgu. Mae'r ysgol yn meithrin chwilfrydedd ac yn cefnogi annibyniaeth yn effeithiol, sy'n creu hinsawdd gadarnhaol ar gyfer dysgu. Mae amgylcheddau a gynlluniwyd yn dda a chyfleoedd pwrpasol i ddysgu'n annibynnol, fel 'eich tro chi' ac 'amser sialens,' yn annog disgyblion i archwilio, meddwl yn greadigol a chydweithio. Mae'r profiadau hyn yn helpu disgyblion i ddod yn ddysgwyr hyderus a gwydn sy'n ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at bobl eraill.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol sy'n hyrwyddo disgwyliadau uchel a phartneriaethau cadarnhaol ymhlith staff, rhieni a disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio'r hyn y maent yn ei ddysgu am gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella i wella addysgu a chefnogi cynnydd disgyblion. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn darparu cymorth a her werthfawr i helpu arweinwyr i wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae athrawon yn elwa ar ddatblygiad proffesiynol a gynlluniwyd yn dda sy'n eu helpu i wella'u harfer a hyrwyddo lles disgyblion. Yn gyffredinol, maent yn cynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn ymgysylltiad disgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol i wirio dealltwriaeth disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i adeiladu ar yr hyn y maent yn ei wybod a gwneud cynnydd da. O bryd i'w gilydd, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent oherwydd nad yw tasgau'n gweddu i'w hanghenion yn ddigon agos.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn gwrando'n ofalus, ac mae disgyblion hŷn yn siarad yn hyderus am eu dysgu. Maent yn mwynhau darllen ac yn defnyddio ystod o strategaethau i ddeall testunau. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dod yn ddarllenwyr, siaradwyr ac ysgrifenwyr hyderus.

Mae'r ysgol yn datblygu dulliau defnyddiol i helpu disgyblion i fyfyrio'n ystyriol ar eu cynnydd, er nad yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol eto.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth a medrau mathemategol cadarn. Maent yn defnyddio adnoddau ymarferol yn dda i gefnogi eu dealltwriaeth ac yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol i ddatrys problemau. Mae hyn yn eu galluogi i ddyfnhau eu meddwl mathemategol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn nodi eu hanghenion yn gynnar ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da â'u dysgu a'u lles. Mae disgyblion yn yr Uned Darparu Adnoddau (UDA) yn elwa ar ethos gofalgar ac yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1. Sicrhau bod profiadau dysgu'n darparu'r lefel gywir o her i ddiwallu gwahanol anghenion y disgyblion

A2. Gwella ansawdd a chysondeb yr adborth i ddisgyblion fel eu bod yn deall y camau nesaf i symud eu dysgu ymlaen

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/11/2025